

TAR Uwchradd Cymraeg
Tasgau i'w gwneud cyn y cwrs

Helo, bawb! Llongyfarchiadau mawr ar ennill lle ar y cwrs TAR Cymraeg Uwchradd! Edrychaf ymlaen at eich gweld ym mis Medi, yn barod am gyfnod newydd yn eich gyrfa.

Er mwyn dechrau paratoi am y flwyddyn brysur, heriol a chyffrous sydd o'ch blaen, dyma rai ffynonellau defnyddiol i chi o ran iaith, y cwricwlwm ac Addysg. Byddant yn darparu man cychwyn da gyda pheth o'r wybodaeth a'r sgiliau fydd angen i chi eu datblygu wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen. Digon yma i roi blas i chi o'r maes a'r Gymraeg!

1. **Ebostiwch Gmorgan@cardiffmet.ac.uk i gadarhau eich lle ar y cwrs pan rydych yn derbyn y llythyr hwn.**
2. Ystyriwch **gyfrwng iaith** eich lleoliadau y flwyddyn nesa. Ydych chi eisiau 2 leoliad cyfrwng Cymraeg, 2 leoliad cyfrwng Saesneg neu gyfuniad o'r 2 (lleoliad cyfrwng Cymraeg a lleoliad cyfrwng Saesneg)? Bydd modd cadarnhau eich dewis ym mis Medi.
3. **Gwaith iaith.** Mae Admissions yn danfon gwybodaeth ar wahân yn cynnwys canllawiau i gefnogi sgiliau iaith myfyrwyr Cymraeg a chyfrwng Cymraeg cyn cychwyn y rhaglen. Os ydych chi eisiau ffocysu ar agweddau penodol, gallwch fanteisio ar ymarferion iaith Y Coleg Cenedlaethol – adnoddau agored – sydd yn cynnwys cyfres o ymarferion ar agweddau iaith penodol a hefyd cefnogaeth i ddarpar athrawon wrth gefnogi iaith eu dysgwyr:

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/adnoddau/>;
<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/adnoddau/sgiliauiaithathrawon/>.
4. **TGAU / Uwch Gyfrannol / Safon Uwch.** Chwiliwch ar wefan CBAC am gyn-bapurau a manylebau Cymraeg: [Hafan \(cbac.co.uk\)](http://cbac.co.uk). Wrth i chi weithio trwy'r papurau - y rhai TGAU yn enwedig, meddyliwch am gamsyniadau rydych yn meddwl y gallai dysgwyr eu gwneud gyda rhai o'r cwestiynau. Dylech ffocysu ar y math o iaith a ddefnyddir yn y papurau gwahanol, terminoleg bynciol, gramadeg ac yn y blaen. Cofiwch fod y cyrsiau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch wedi newid ychydig ers i chi fod yn yr ysgol, felly bydd treulio ychydig o amser yn ymgyswrtu â chynnwys y manylebau yn help anferth cyn dechrau.
5. **Gwnewch ychydig o ddarllen cefndirol.** Yn ogystal â darllen er pleser dros y gwyliau, beth am gael cip trwy rai dogfennau allweddol yn y maes Addysg a'r Gymraeg. Dyma rai awgrymiadau i chi isod – gwefannau a rhai llyfrau dethol.

- Dyfodol Llwyddiannus – yr Athro Graham Donaldson: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>

- Cwricwlwm i Gymru: <https://llyw.cymru/cwricwlwm-gymru>
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/>

- Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 2022: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/>

Cymraeg yn y Cwricwlwm:

[Cymraeg: Rhaglen Astudio Cyfnodau Allweddol 2-4 - Hwb \(gov.wales\)](#)

Cymraeg Ail Iaith yn y Cwricwlwm:

[Cymraeg ail iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru - Hwb \(gov.wales\)](#)

- Capel, S., Leask, M. and Turner, T. (2016), *Learning to teach in the secondary school*, Llundain: Routledge.
- Kyriacou, C. (2009) *Effective teaching in schools: theory and practice*, Cheltenham: Nelson Thornes.
- Jones, C. & Morris S (2016) *Cyfoethogi'r Cyfathrebu: Llawlyfr Ymarferol i Diwtoriaid Cymraeg i Oedolion*, G.P.C.
- Jones, G.W, (2013) *My Guinea Pig Died With Its Legs Crossed: A guide to teaching another language*, Atebol.
- Muijs, D. & Reynolds, D. (2010), *Effective teaching: evidence and practice*, Llundain: Sage.
- Smith, S. & Conti, G. (2016), *The Language Teacher Toolkit*, Create Space Independent Publisher Platform – llawer o syniadau ymarferol am ddysgu ieithoedd yn y sector uwchradd.

I gloi, edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd ym mis Medi. Os oes cwestiynau gyda chi yn y cyfamser, cysylltwch nôl yn syth.

Gyda phob dymuniad am wyliau da cyn y gwaith mawr ym mis Medi!

Dr Gina Morgan

Dr Gina Morgan gmorgan@cardiffmet.ac.uk
Arweinydd Llwybr TAR Cymraeg Uwchradd
Ffôn: 02920 417251